# Yr Adran Cymunedau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Gwybodaeth am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin

## Ffeithlen 5

**Ionawr 2025**

**Mae'r ffeithlen hon yn dweud wrthych am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol. Mae'n esbonio beth yw Taliadau Uniongyrchol, pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun, sut i'w ddefnyddio a pha gymorth sydd ar gael.**


Beth yw Taliadau Uniongyrchol?....................2
Pwy sy'n gallu gael Taliadau Uniongyrchol? ....................2
Ar gyfer beth allaf ddefnyddio'r Taliad Uniongyrchol? ....................2
Beth yw'r manteision?....................3
Beth fyddai fy nghyfrifoldebau i?....................3
A fydd angen i mi gadw cofnodion? ....................3
Faint o arian fyddaf yn ei gael?....................4
A fydd angen i mi dalu unrhyw beth?....................4
A fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar fy mudd-daliadau?....................4
Beth sydd angen i mi ei wneud i gael taliadau uniongyrchol? ....................4
Taliadau Uniongyrchol a Chostau Ychwanegol....................5
Pwy ydw i'n ei gyflogi? ....................5
Cynorthwywyr personol hunangyflogedig....................6
Dileu Swyddi....................9
Cynorthwywyr personol hunangyflogedig....................10
Cynorthwywyr Personol Cyflogedig....................10
Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol:....................10

## Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Mae Taliad Uniongyrchol yn daliad y gellir ei wneud i bobl sy’n gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac a fyddai’n ffafrio trefnu eu gwasanaethau eu hunain. Mae Taliadau Uniongyrchol yn ei gwneud hi'n bosibl i chi brynu'r gwasanaethau yr aseswyd bod eu hangen arnoch, mewn ffordd sy'n rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i chi. Mae Taliadau Uniongyrchol hefyd yn caniatáu i berson addas arall weithredu ar eich rhan os oes angen. Byddai angen person addas os nad oes gan y person ag anghenion gofal a chymorth y galluedd meddyliol i reoli taliad uniongyrchol, hyd yn oed gyda chymorth.

Gallwch benderfynu sut y bydd eich anghenion yn cael eu diwallu, gan bwy ac ar adeg sy'n addas i chi. Bydd gennych ddewis ehangach o wasanaethau yn ogystal â rheolaeth go iawn dros eich bywyd – byddwch yn rheoli eich pecyn gofal eich hun. Mae taliadau uniongyrchol yn helpu i roi cyfle i bobl fyw mor annibynnol â phosibl.

Os yw'r ffeithlen hon yn cyfeirio at yr unigolyn sydd angen gofal, gall gyfeirio hefyd at berson addas arall a all weithredu ar ran yr unigolyn y mae angen gofal arno.

## Pwy sy'n gallu gael Taliadau Uniongyrchol?

Gellir cynnig Taliadau Uniongyrchol i bobl sy'n gymwys i dderbyn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Mae pobl sy'n gymwys yn cynnwys y bobl hynny sydd wedi cael eu hasesu gan yr awdurdod lleol fel rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth cymwys, neu le mae gan ofalwyr anghenion cymorth.

## Ar gyfer beth allaf ddefnyddio'r Taliad Uniongyrchol?

Gellir ond gwario Taliadau Uniongyrchol ar wasanaethau i ddiwallu'r anghenion a ddisgrifir yn eich asesiad ac y manylir arnynt yn eich cynllun gofal a chymorth, neu yn achos gofalwyr, eu cynllun gofal.

Gallwch ddefnyddio eich Taliadau Uniongyrchol i brynu gwasanaethau gofal cymunedol fel:

- Cynorthwyo gyda gofal personol fel ymolchi, gwisgo a bwyta
- Cymorth ymarferol gyda gweithgareddau
- Gofal seibiant

Fel arfer, ni allwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd neu dai.

## Beth yw'r manteision?

- Gallwch ddewis sut y bydd eich anghenion yn cael eu diwallu
- Gallwch ddewis pwy sy'n darparu'r gwasanaethau
- Gallwch dderbyn gwasanaethau ar adeg sy'n addas i chi
- Byddwch yn derbyn cymorth a chefnogaeth i reoli'r cynllun

## Beth fyddai fy nghyfrifoldebau i?

Chi fydd yn gyfrifol am reoli'r ffordd y caiff eich Taliadau Uniongyrchol eu gwario yn unol â chontract y byddech yn cytuno â ni.
Os ydych yn cyflogi Cynorthwyydd Personol yn uniongyrchol, bydd gennych gyfrifoldebau cyflogwr. Os ydych yn cyflogi cynorthwyydd personol, byddwn yn disgwyl i'r person hwn gael tystysgrif ddilys gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd cyn iddo ddechrau gweithio.

Gallwch gyflogi unrhyw un cyhyd â'i fod yn hyrwyddo eich llesiant.

## A fydd angen i mi gadw cofnodion?

**Bydd**, mae'r arian yr ydych yn ei dderbyn fel Taliad Uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau i ddiwallu eich anghenion gofal cymdeithasol. Mae'n parhau i fod yn arian cyhoeddus, rhaid i chi ei wario ar wasanaethau i ddiwallu eich anghenion gofal. Pan fydd eich taliadau uniongyrchol yn dechrau, byddwch yn cael gwybod pa gofnodion i'w cadw a pha wybodaeth y disgwylir i chi ei darparu.

Os ydych yn poeni efallai na fyddwch yn gallu rheoli Taliadau Uniongyrchol ar eich pen eich hun, gallwch gael help. Gall ymgynghorydd o'r gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol gynnig cyngor a chefnogaeth i chi gyda hyn a'ch cynorthwyo o ran recriwtio a rheoli staff. Mae'r gwasanaeth cymorth yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

## Faint o arian fyddaf yn ei gael?

Mae hyn yn dibynnu ar asesiad o faint a pha fath o gymorth sydd ei angen arnoch.  Bydd eich Cynllun Gofal a Chymorth yn nodi'r nifer o oriau yr wythnos sydd eu hangen arnoch a faint y bydd hyn yn ei gostio.

## A fydd angen i mi dalu unrhyw beth?

Efallai y gofynnir i chi wneud cyfraniad tuag at gost eich gofal.  Bydd hyn yr un peth p'un a yw'r gwasanaethau yn cael eu trefnu ar eich cyfer gennym ni neu a ydych yn dewis Taliadau Uniongyrchol.

Bydd gennych hawl i gael asesiad ariannol (prawf modd) a bydd canlyniadau hyn yn penderfynu faint y gofynnir i chi ei gyfrannu.

## A fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar fy mudd-daliadau?

Na, nid yw Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar eich budd-daliadau o gwbl ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn incwm at ddibenion treth.

## Beth sydd angen i mi ei wneud i gael taliadau uniongyrchol?

Y cam cyntaf yw cysylltu â ni i gael asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth.

Bydd **aelod o staff Gwaith Cymdeithasol** yn siarad â chi am eich sefyllfa a'r cymorth sydd ei angen arnoch.  Gelwir hyn yn asesiad .  Ar ôl i'r asesiad bennu bod gennych anghenion gofal cymdeithasol, trefnir Cynllun Gofal a Chymorth a bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn trafod yr opsiwn o Daliadau Uniongyrchol.

Rydym yn darparu cynllun cymorth i helpu pobl i reoli eu Taliadau Uniongyrchol os oes angen.  Os byddwch yn penderfynu yr hoffech dderbyn Taliadau Uniongyrchol ac yr hoffech gael cymorth gyda hyn, bydd Ymgynghorydd yn ymweld â chi i drafod y Cynllun.

## Taliadau Uniongyrchol a Chostau Ychwanegol

Os byddwch yn penderfynu yr hoffech gael taliad uniongyrchol, yna bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau bod y taliad uniongyrchol hwnnw'n ddigonol i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth cymwys.
Fodd bynnag, efallai y byddwch am brynu darn mwy costus o offer, darparwr gofal drutach, neu dalu cyflog uwch i'ch gweithiwr nag y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei dalu i ddiwallu eich anghenion.

Os ydych chi am dalu am fersiwn ddrutach o rywbeth yr asesir bod arnoch ei angen o fewn eich cynllun gofal a chymorth, yna bydd disgwyl i chi dalu'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai'r Cyngor yn ei dalu a'r swm rydych am ei dalu.

Os ydych yn penderfynu cyflogi cynorthwyydd personol i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth cymwys a nodwyd, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn talu'r holl arian taliadau uniongyrchol yr ydym yn ei roi i chi i'ch cynorthwyydd personol. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid cadw rhan o'r arian taliadau uniongyrchol yn ôl ar gyfer pethau eraill fel hyfforddiant, costau pensiwn, treth ac ati. Gallwn eich cynghori ar faint o arian y dylech ddisgwyl ei dalu i'ch cynorthwyydd personol.

Yn ogystal, os byddwch yn penderfynu cyflogi cynorthwyydd personol, byddem yn eich cynghori i beidio ag atal eich cynorthwyydd personol rhag manteisio ar ei hawliau cyfreithiol fel gwyliau blynyddol.

## Pwy ydw i'n ei gyflogi?

Bydd rhai pobl yn defnyddio eu taliadau uniongyrchol i gael help gan berson arall (a elwir yn gynorthwyydd personol) i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Fel arfer, bydd y person sy'n derbyn y taliad uniongyrchol (neu berson addas) yn ymrwymo i gontract cyflogaeth gyda'r cynorthwyydd personol, ac felly bydd y cynorthwyydd personol yn cael ei gyflogi at y diben hwn. Weithiau ni fydd yn glir a yw'r cynorthwyydd personol yn cael ei gyflogi neu a yw'n hunangyflogedig. I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud os ydych yn credu bod y cynorthwyydd personol yn hunangyflogedig, gweler isod.

Os ydych yn ystyried cael taliad uniongyrchol ac yn ansicr o statws cyflogaeth y person yr hoffech iddo ddiwallu eich anghenion gofal a

chymorth, gall Ymgynghorwyr Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir Caerfyrddin eich helpu gyda'r camau y mae angen eu cymryd i wneud hyn.

Yn ogystal â sefydlu a yw eich cynorthwyydd personol yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw cynorthwywyr personol fel arfer yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Y rheswm am hyn yw os nad yw'r person neu'r sefydliad yn darparu gofal i fwy na 4 o bobl, yna nid oes angen iddo fod wedi cofrestru gydag AGC. Yn ogystal, ys ydych yn derbyn taliadau uniongyrchol ac mae eich cynorthwyydd personol yn darparu gofal personol i chi, yna os yw eich cynorthwyydd personol yn gweithio'n gyfan gwbl o dan eich cyfarwyddyd a'ch rheolaeth (neu'ch person addas) h.y. chi sy'n penderfynu sut mae'r gofal yn cael ei ddarparu, ble mae'n cael ei ddarparu a phryd mae'n cael ei ddarparu ac ati, ni fydd angen iddo hefyd gofrestru ag AGC.

## Cynorthwywyr personol hunangyflogedig

Nid ydym yn argymell eich bod yn defnyddio Cynorthwyydd Personol hunangyflogedig gan fod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) wedi cynghori y byddent yn ystyried bod bron pob cynorthwyydd personol sy'n darparu gofal a chymorth yn cael ei gofrestru fel gweithiwr cyflogedig yn hytrach na'n hunangyflogedig at ddibenion treth.

O ystyried hyn, mae'n hanfodol eich bod yn egluro statws cyflogaeth eich gweithiwr cyn iddo ddechrau gweithio i chi. Y ffordd gyflymaf o gael barn CThEF ynghylch a yw eich cynorthwyydd personol yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yw defnyddio'r offeryn Gwirio Statws Cyflogaeth at Ddibenion Treth. Bydd angen i chi nodi'r cyfeirnod unigryw a roddir, yn ogystal â chadw copi o'r cwestiynau a'r atebion a ddarparwyd gennych.

Os na allwch ddefnyddio'r offeryn Gwirio Statws Cyflogaeth neu os ydych yn ansicr o statws cyflogaeth eich gweithiwr, gallwch ffonio Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Statws CThEF ar 0300 123 2326 rhwng 8.30am a 4.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc. Gweler hefyd Statws cyflogaeth- GOV.UK (www.gov.uk)

Os byddwch yn penderfynu defnyddio gweithiwr hunangyflogedig, rhaid i'r awdurdod lleol weld copi o'r canlynol:

- cadarnhad gan CThEF ei wedi'i gofrestru'n hunangyflogedig i weithio fel cynorthwyydd personol, gan gynnwys rhif Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) ar bapur pennawd CThEF y cyfeirir ato isod. Ni fydd statws hunangyflogaeth ar gyfer swyddi eraill yn ddilys.
- copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cynorthwyydd personol hunangyflogedig, y mae'n rhaid iddo ei ddarparu. Ni ddylech dalu am yswiriant rhywun hunangyflogedig. Fe'ch cynghorir i wirio bod eich cynorthwyydd/cynorthwywyr hunangyflogedig yn adnewyddu hyn bob blwyddyn.
- copi o'r contract yn cytuno ar delerau ac amodau'r cymorth a ddarperir, prisiau a godir/cost y gwasanaeth, a fyddai'n cael ei gytuno gennych, gan gynnwys pryd a ble i ymgymryd â'r gwaith.
- Canlyniad y gwiriad statws hunangyflogedig drwy CThEF y cyfeirir ato uchod.

**Nid yw'r ffaith bod yr awdurdod lleol yn gofyn am y wybodaeth hon mewn unrhyw ffordd yn dileu'ch cyfrifoldeb i bennu statws cyflogaeth eich cynorthwyydd personol.**

Rhaid darparu'r wybodaeth hon cyn y gellir talu'r cynorthwyydd personol o'ch taliad uniongyrchol.

Sylwch mai chi sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad cywir ynghylch a yw Cynorthwyydd Personol yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig. **Os yw CThEF yn penderfynu mai chi yw'r cyflogwr (hyd yn oed pan fydd y gweithiwr wedi cofrestru gyda CThEF yn hunangyflogedig) byddwch yn atebol i dalu'r dreth, yswiriant gwladol, ac yswiriant cenedlaethol y cyflogwr wedi'u hôl-ddyddio. Felly, mae'n hanfodol bod y cynorthwyydd personol yn rhoi'r ddogfennaeth berthnasol i chi ar gyfer ei rôl fel eich cynorthwyydd personol.**

Rydym wedi nodi isod y gwahaniaethau o ran eich cyfrifoldebau pan fod rhywun yn gynorthwyydd personol cyflogedig ac yn gynorthwyydd personol hunangyflogedig. Os ydych yn cyflogi cynorthwyydd personol yn uniongyrchol, byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Telerau ac amodau cyflogaeth y cynorthwyydd personol, gan gynnwys talu cyflogau, trefnu treth, yswiriant gwladol (os yw'n berthnasol) a gwneud trefniadau cyflenwi ar gyfer gwyliau
- Rhoi contract cyflogaeth i'ch cynorthwyydd personol
- Trefnu eich yswiriant eich hun ar gyfer yswiriant atebolrwydd ac atebolrwydd cyhoeddus Cyflogwr
- Talu cyflog rheolaidd i'r cynorthwyydd personol
- Gwneud penderfyniadau a rhoi cyfarwyddiadau ynghylch ble, pryd, a sut mae'r cynorthwyydd personol yn darparu'r gwasanaeth
- Gwneud trefniadau eraill eich hun ar gyfer cael cymorth pan nad yw eich cynorthwyydd personol ar gael
- Darparu'r offer a'r deunyddiau i'r cynorthwyydd personol, lle bo angen
- Unrhyw gyfnod rhybudd y mae'r person hunangyflogedig yn ei ddisgwyl cyn y gallwch chi roi'r gorau i'w wasanaethau

Os ydych yn cyflogi cynorthwyydd personol hunangyflogedig, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am y canlynol:

- Darparu rhif Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) ichi a roddwyd gan CThEF ar bapur pennawd CThEF yn datgan bod yr unigolyn yn hunangyflogedig
- Trefnu ei yswiriant ei hun i ddiogelu yn erbyn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr lle bo angen.
- Darparu contract sy'n cytuno ar delerau ac amodau'r cymorth a ddarperir, prisiau a godir/cost y gwasanaeth, a fyddai'n cael eu cytuno gennych, gan gynnwys pryd a ble i ymgymryd â'r gwaith.
- Rhoi anfonebau i chi sy'n dyfynnu ei rif cofrestru CThEF i ofyn am daliad gennych am y gwasanaeth(au) penodol y mae wedi ymgymryd â nhw. Byddem yn eich cynghori i ofyn i'r cynorthwyydd personol lofnodi'r anfoneb i ddweud eich bod wedi ei dalu neu gael derbynneb am unrhyw daliadau rydych yn eu gwneud. Rydym yn cynghori nad ydych yn talu'r gyfradd lawn yr awr o Daliad Uniongyrchol yr ydych yn ei gael gan Gyngor Sir Caerfyrddin gan efallai y bydd angen i chi gyllidebu ar gyfer costau annisgwyl eraill o hyd megis trefniadau wrth gefn os yw'ch cynorthwyydd personol yn absennol. Os oes gennych fwy nag un cynorthwyydd personol, bydd angen iddynt anfonebu a chael eu talu ar wahân.

- Gall person hunangyflogedig ddewis pryd mae'n gweithio i chi. Mae'n rhaid i chi benderfynu a fydd hyn yn addas i chi. Nid oes gan weithwyr hunangyflogedig yr hawl i gael gwyliau blynyddol â thâl.
- Trefnu ei dreth a'i yswiriant gwladol ei hun, ynghyd â'i gyfrifon cyffredinol
- Darparu ei offer ei hun (oni chytunir fel arall mewn cytundeb contract)
- Darparu gweithwyr eraill i'ch cynorthwyo os nad yw'n gallu darparu'r gwasanaeth ei hun.

O ran yr uchod, fel rhan o'ch contract taliad uniongyrchol gyda ni, byddwn yn disgwyl ichi fod yn fodlon bod unrhyw gynorthwywyr personol hunangyflogedig dilys wedi gwneud yr holl drefniadau uchod.

Os nad ydych yn siŵr am statws cyflogaeth eich cynorthwyydd personol, cysylltwch â ni. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol mai eich cyfrifoldeb chi yw gwirio hyn drwy'r dulliau a ddisgrifir uchod.

**Er efallai ei fod yn ymddangos o'r uchod y gallai trefnu cynorthwyydd personol hunangyflogedig i ddiwallu eich anghenion arwain at lai o gyfrifoldeb arnoch chi, byddem yn pwysleisio y gallwn eich cefnogi gyda'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr, ac nad yw dweud bod rhywun yn gynorthwyydd hunangyflogedig yn golygu bod hyn yn wir, ac efallai y bydd CThEF yn eich erlid o hyd am unrhyw dreth ac yswiriant wedi'u hôl-ddyddio ac ati.. Felly, byddem yn eich annog i beidio â defnyddio cynorthwywyr personol hunangyflogedig.**

Mewn perthynas â chynorthwywyr personol hunangyflogedig dilys, byddwn ond yn prosesu taliad am eu gwaith ar ôl derbyn eu hanfoneb ar ôl i wasanaeth gael ei ddarparu.

## Dileu Swyddi

Nid pwrpas y ffeithlen hon yw mynd i'r afael â'r holl faterion cyflogaeth posibl a allai godi o ddefnyddio taliad uniongyrchol i gyflogi cynorthwyydd personol. Fodd bynnag, mae mater penodol mewn perthynas â dileu swyddi y mae'r ffeithlen hon yn dymuno mynd i'r afael ag ef.

## Cynorthwywyr personol hunangyflogedig

Os ydych chi'n defnyddio cynorthwyydd personol hunangyflogedig, yna ni ddylai mater dileu swydd(i) godi oni bai bod tribiwnlys cyflogaeth, er enghraifft, yn penderfynu bod eich cynorthwyydd personol yn cael ei gyflogi mewn gwirionedd.

## Cynorthwywyr Personol Cyflogedig

Pan fydd taliad uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio i gyflogi cynorthwyydd personol (h.y. cynorthwywyr personol nad ydynt yn hunangyflogedig), mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i'r cyflogwr (naill ai'r person sydd ag anghenion gofal a chymorth neu'r person addas) gael yswiriant atebolrwydd cyflogaeth. Os oes angen dileu swydd y cynorthwyydd personol yna disgwylir y bydd unrhyw daliad dileu swydd yn cael ei wneud trwy'r yswiriant hwnnw. Os nad yw'r yswiriant yn ddigonol i dalu am unrhyw daliad dileu swydd, yna bydd disgwyl i'r cyflogwr ofyn am ganiatâd yr awdurdod lleol i ddefnyddio unrhyw arian taliad uniongyrchol dros ben tuag at y taliad hwnnw. Dim ond pan nad yw'r yswiriant ac unrhyw daliad uniongyrchol dros ben yn ddigonol i dalu'r taliad dileu swydd, y bydd yr awdurdod lleol fesul achos yn ystyried a ddylid arfer ei ddisgresiwn a gwneud taliad uniongyrchol pellach i dalu am unrhyw ddiffyg.

## Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol:

Cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol os oes gennych un neu os hoffech gael asesiad o'ch anghenion gofal. Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy:

- ffôn: 0300 333 2222 neu
- minicom ar:01554 756741
- SMS: 0789 2345678
- gwneud atgyfeiriad drwy ein gwefan:

https://sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

**Os hoffech gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall ffoniwch 01267 228703 neu e-bostiwch: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**

For more information on social care services log onto:
**www.carmarthenshire.gov.wales/socialcare**